**EITEM AR YR AGENDA: 20**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mehefin 2008**

## CWYNION A LLYTHYRAU O WERTHFAWROGIAD

**Adroddiad gan Colin Hanks,**
**Dirprwy Brif Swyddog Tân**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Hysbysu a diweddaru aelodau am y nifer o gwynion a llythyrau o werthfawrogiad a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

### Gwybodaeth

**2.** Cwynion a Dderbyniwyd Ebrill 2007 - Mawrth 2008
Mae'r nifer o gwynion a ddaeth i law, yr archwiliwyd iddynt ac a ddatryswyd yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub wedi syrthio o draean eleni o'i gymharu â'r llynedd:

| **Natur y Cwynion a Ddaeth i Law** | **Eleni** | **Y Llynedd** |
|---|---|---|
| Materion y Gymraeg | 2 | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 1 | 1 |
| Gyrru | 2 | 12 |
| Diogelwch Tân: Gorfodaeth | 0 | 1 |
| Diogelwch Cymunedol | 3 | 3 |
| Gweithgareddau Gweithredol | 2 | 4 |
| Sŵn – aflonyddwch | 2 | 0 |
| Anfon allan | 1 | 0 |
| Ymddygiad | 5 | 8 |
| **Cyfanswm** | **18** | **29** |

**Gwybodaeth** *(parhad)*

| **Nifer o Gwynion a brofwyd** | **Eleni** | **Y Llynedd** |
|---|---|---|
| Materion y Gymraeg | 1 | 0 |
| Gweithdrefnau Adnoddau Dynol | 0 | 0 |
| Gyrru | 1 | 3 |
| Diogelwch Tân: Gorfodaeth | 0 | 0 |
| Diogelwch Cymunedol | 2 | 2 |
| Gweithgareddau Gweithredol | 1 | 0 |
| Anfon allan | 0 | 0 |
| Ymddygiad | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **6** | **6** |

## 3. Crynodeb o'r Cwynion a Brofwyd

| **Materion y Gymraeg** | |
|---|---|
| Nid oedd y ffurflen archwiliad tân yn y cartref yn Gymraeg | *Ffurflen ddwyieithog wedi ei chreu ynghyd ag ymddiheuriad* |

| **Gyrru** | |
|---|---|
| Cwyn fod cerbyd y gwasanaeth yn torri'r terfyn gyrru ar yr A55 | *Fe dderbyniodd yr aelod o staff rybudd ac anfonwyd ymddiheuriad* |

| **Diogelwch Cymunedol** | |
|---|---|
| Cwyn yn ymwneud â gwastraffu arian y trethdalwyr heb ystyried yr effaith ar yr amgylchedd – cyfeirio at ddeunydd argraffedig ymgyrch Diogelwch Tân Cymunedol. | *Adolygu deunydd argraffedig – defnyddio llai o bapur nawr – rhoddwyd ymddiheuriad ar lafar* |
| Cwyn yn ymwneud â'r methiant i ddarparu gwisg i aelod o Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc. | *Rhoddwyd ymddiheuriad a gwisg* |

**Crynodeb o'r Cwynion a Brofwyd** *(parhad)*

| **Gweithgareddau Gweithredol** | |
|---|---|
| Sŵn gormodol yn ystod digwyddiad hyfforddi ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Tîm Achub Mynyddoedd mewn ardal breswyl | *Dywedwyd wrth y staff perthnasol i beidio â gadael i hyn ddigwydd eto. Roedd y sawl oedd yn cwyno yn fodlon gyda hyn ac fe dderbyniodd ymddiheuriad ar lafar* |

| **Ymddygiad** | |
|---|---|
| Cwyn yn ymwneud â phersonél y Gwasanaeth yn gwisgo eu lifrai oddi ar ddyletswydd mewn tŷ tafarn | *Cynghorwyd yr aelod o staff o'r Polisi Gwasanaeth a chanlyniad unrhyw ddigwyddiad ailadroddus* |

**Mae'n bwysig rhoi'r cwynion yma yn eu cyd-destun:**

- **Mynychodd personél Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 10,143 o ddigwyddiadau gweithredol yn ystod y cyfnod hwn**
- **Fe wnaeth personél Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 26,504 o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim yn ystod y cyfnod hwn**
- **Fe gymerodd personél Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ran mewn oddeutu 1500 o ddigwyddiadau ysgol neu gymunedol**

## 4. Llythyrau o Werthfawrogiad

Mae'n werth nodi fod 89 o lythyrau, cardiau ac e-byst o werthfawrogiad wedi cael eu derbyn yn mynegi boddhad gyda'r Gwasanaeth. Mae hyn yn cymharu â nifer debyg dderbyniwyd yn y flwyddyn cynt. Roedd y mynegiadau o werthfawrogiad a dderbyniwyd yn cynnwys amrediad eang o weithgaredd y Gwasanaeth Tân ac Achub ond yn fras, yn syrthio i'r categorïau canlynol:

### Llythyrau o Werthfawrogiad

<u>Digwyddiadau Gweithredol a Gwasanaethau i'r Cyhoedd</u>
Derbyniwyd 21 mynegiant o werthfawrogiad yn ymwneud â digwyddiadau gweithredol gwahanol mewn adeiladau masnachol, cartrefi ac anffodusion gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd.

<u>Mentrau Diogelwch Tân Cymunedol a digwyddiadau Cymunedol</u>
Derbyniwyd 28 mynegiant o werthfawrogiad ar gyfer gweithgareddau amrywiol. Roeddynt yn cynnwys sgyrsiau ac ymweliadau i grwpiau megis canghennau o Gymdeithas y Diffoddwyr Tân Ifanc, gwyliau, ffeiriau a dyddiau agored, ac ymweliadau i safleoedd y gwasanaeth tân ac achub. Llongyfarchwyd staff am y ddarpariaeth o offer ymyrryd diogelwch tân i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed. Roedd digwyddiadau megis dyddiau glanhau'r amgylchedd, sioe gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ac ymweliadau ag ysbytai wedi atynnu llythyrau pellach o werthfawrogiad.

<u>Cydraddoldeb a Phrofiad Gwaith</u>
Derbyniwyd 6 mynegiant o werthfawrogiad yn gysylltiedig â chefnogaeth y Gwasanaeth i ddigwyddiadau cydraddoldeb a darparu cyfleoedd profiad gwaith i bobl ifanc.

**Llythyrau o Werthfawrogiad** *(parhad)*

<u>Ymweliadau ag Ysgolion a Hyfforddiant</u>
Derbyniwyd 5 llythyr o werthfawrogiad i ymweliadau addysgiadol mewn ysgolion, megis y Criw Craidd.

<u>Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref</u>
Derbyniwyd 21 llythyr o werthfawrogiad gan rai dderbyniodd archwiliad diogelwch tân yn y cartref

<u>Gweithio mewn partneriaeth</u>
Derbyniwyd 8 mynegiant o werthfawrogiad yn gysylltiedig â chyfranogiad y Gwasanaeth mewn gwaith partneriaeth.

**Argymhelliad**

**5.** Fod aelodau yn nodi'r nifer o gwynion a mynegiannau o werthfawrogiad a dderbyniwyd.